# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)20-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 30 Mehefin 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod y 4ydd Llawr, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)19-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 23 Mehefin 2009**

2.1 Cafodd y cofnodion eu cyflwyno i'r pwyllgor ar ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes ar gyfer y dyfodol**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)20-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bod y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad deddfwriaethol ar y Mesur arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad diweddaru ar Fliw Moch yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher .

3.3 Nododd y Pwyllgor na fydd y Cyfnod Pleidleisio yn digwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.4 Nododd y Pwyllgor y drefn fusnes are gyfer 30 Mehefin a 1 Gorffennaf 2009.

**Amserlen tair wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth - BC(3)20-09(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor yr amserlen tair wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth.

**Amserlen tair wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw am fusnes y Llywodraeth - BC(3)20-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r cynigion a ganlyn:

Cynnig i adolygu'r Rheolau Sefydlog (5 munud) ar 8 Gorffennaf; a

Cynnig mewn perthynas â'r gwaith o graffu ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth (15 munud) ar 15 Gorffennaf.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw am fusnes y Llywodraeth.

**4. Y drefn fusnes**

**Papur ar y drefn ar gyfer cynnal balot mewn perthynas â deddfwriaeth arfaethedig Aelod - BC(3)20-09(p4)**

4.1 Ar 28 Ebrill, bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan Alun Cairns am y gweithdrefnau ar gyfer cynnal balot ar gyfer Mesur arfaethedig Aelod. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried cynnig i atal Rheol Sefydlog 23.101 ar 6 Mai i ganiatáu Aelodau sydd wedi ennill y balot o'r blaen i wneud cais ar gyfer y balot Mesurau. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur mwy manwl ar y posibilrwydd o ddiwygio'r Rheolau Sefydlog i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hirach, i'w ddarparu cyn y cynhelir y rownd nesaf o falots ar gyfer Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau .

4.2 Yn y cyfarfod a gynhaliwyd heddiw, bu'r Pwyllgor yn ystyried cynigion ar gyfer adolygu'r drefn ar gyfer cynnal balots. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r darpariaethau perthnasol yn y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal ar gyfer y balots nesaf a'r rhai canlynol er mwyn galluogi Aelodau sydd wedi ennill y balot o'r blaen i wneud cais. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried y mater unwaith eto pan fydd y balot nesaf yn cael ei gynnal.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid: Rheol Sefydlog dros dro**

**27A - BC(3)20-09(p5)**

4.3 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amser sydd ar gael i graffu ar Cyllideb drafft y Llywodraeth. Nododd y Pwyllgor Busnes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cytuno â'r Gweinidog dros Cyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arweinydd y Tŷ mewn egwyddor, i gynnal peilot lle byddai'r Pwyllgor Cyllid yn cael wythnos ychwanegol i graffu ar y gyllideb. Byddai hefyd yn rhoi wythnos ychwanegol i bwyllgorau eraill ystyried y gyllideb ddrafft ac i gyflwyno'u sylwadau i'r Pwyllgor Cyllid.

4.4 Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried Rheol Sefydlog dros dro a fyddai'n galluogi'r Pwyllgor Cyllid i gyflwyno'r cynllun peilot yn yr hydref. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno adolygiad dros dro i Reol Sefydlog 27, i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Gorffennaf. Dywedodd y Llywydd y byddai adroddiad y Pwyllgor Busnes yn cael ei osod gerbron y Cynulliad.

**5. Deddfwriaeth**

**Papur gan y Gweinidog ar y Mesur arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) - BC(3)20-09(p6a)**

**Amserlen enghreifftiol - BC(3)20-09(p6b)**

**Papur gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth - BC(3)20-09(p6c)**

5.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig ynghylch Codi Ffioedd am Ofal Cymdeithasol (Cymru) i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, ac mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 3 Tachwedd 2009.

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4: Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Amgylchedd) 2009 - BC(3)20-09(p7)**

5.2 Nododd y Pwyllgor Busnes yr adroddiad ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch yr Amgylchedd. Nododd y Pwyllgor bod yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion a oedd yn berthnasol i rôl y Pwyllgor Busnes, yn adran 4 pedwar yr adroddiad yn benodol. Dywedodd y Llywydd bod papur yn cael ei baratoi a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth.

**6. Pwyllgorau**

**Cais i gymeradwyo cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid yn ystod cylch cynllunio cyllideb 2009 - BC(3)20-09(p8)**

6.1 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried cais gan y Pwyllgor Cyllid i gynnal cyfarfodydd ychwanegol yn ystod tymor yr hydref i graffu ar gyllideb drafft y Llywodraeth. Nododd y Pwyllgor Busnes mai'r opsiwn sydd orau gan Aelodau'r Pwyllgor yw cynnal y pwyllgorau hynny ar fore dydd Mawrth o 9 -11am. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd angen cynnal dau i dri phwyllgor ychwanegol yn ystod hanner cyntaf y tymor ar ben ei gyfarfodydd arferol bob yn ail wythnos. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y cynnig.

6.2 Dywedodd y Llywydd ei bod wedi cael ymholiad, yn unol â Rheol Sefydlog 10.41, ynglŷn â chynnal cyfarfodydd ychwanegol o'r Pwyllgor Cyllid yn ystod toriad yr haf.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu - BC(3)20-09(p9a)**

**Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009 - BC(3)20-09(p9b)**

**Memorandwm Esboniadol - BC(3)20-09(p9c)**

**Papur gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes - BC(3)20-09(p9d)**

6.3 Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu ynglŷn â'r Gorchymyn Cymhwysedd

Deddfwriaethol Pwyllgor ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth a gofynnodd i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynnig yn y Cyfarfod Llawn na ddylai'r Gorchymyn arfaethedig gael eu hystyried yn fanwl gan bwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wneud hynny ac y pennir amser i ystyried y cynnig yn ystod yr amser heblaw amser y Llywodraeth ddydd Mercher 15 Gorffennaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**